

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Health & Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Mawrth 2021

Annwyl Gydweithwyr

Fel y gwyddoch, mae'r rhaglen frechu'n mynd rhagddi'n gyflym, ac rydym wrthi'n brechu grŵp 6 y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) sydd ag ystod ehangach na'r grwpiau blaenorol. Paratowyd nodiadau briffio yn atodiad 1 i esbonio ac egluro nifer o bwyntiau sydd wedi'u codi. Nid yw hwn yn cynnwys popeth, ac yn y pen draw efallai y bydd gofyn defnyddio barn broffesiynol ar sail meini prawf JCVI a'r Llyfr Gwyrdd, ond rwy'n credu y bydd hwn yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar nifer y grwpiau yng nharfan 6. Mae canllawiau ar gael ynghylch [gofalwyr di-dâl](#); a phobl ag [anabledd dysgu neu salwch meddwl difrifol](#). Mae canllawiau hefyd yn cael eu paratoi ynghylch boblogaeth ddigartref. Bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi os bydd angen, wrth i feysydd penodol gael eu hystyried.

Rwy'n cydnabod yr ymdrech enfawr y mae Gofal Sylfaenol yn ei wneud i gefnogi'r gwaith o ddarparu brechlynnau i bobl Cymru ac rwy'n ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

Dr Mark Walker
Senior Medical Officer - Primary Care Division
Uwch Swyddog Meddygol - Is Adran Gofal Sylfaenol

Atodiad 1 - Papur briffio Grŵp 6 ar gyfer Gofal Sylfaenol

1. Mae Grŵp 6 yn System Imiwneiddio Cymru (WIS) yn cynnwys pawb sy'n 16 oed neu'n hŷn ac sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn seiliedig ar tua deunaw mil o godau clinigol mewn cofnodion meddyg teulu sy'n dangos eu bod yn perthyn i grŵp risg clinigol a ddylai gael eu himiwneiddio rhag COVID-19 yn unol â chyngor JCVI. Mae'r crynodeb o'r grwpiau hyn yn Nhabl 3 o bennod 14a y Llyfr Gwyrdd.
2. Datblygwyd y rhestr codau hon gan dîm o godwyr clinigol a chlinigwyr profiadol ym Mhrifysgol Nottingham i'w defnyddio ledled y DU, gweler <https://www.nottingham.ac.uk/primis/covid-19/covid-19.aspx>. Mae'r codio wedi'i wirio gan y tîm gofal sylfaenol yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), sy'n gweithio gyda data meddygon teulu sydd wedi'i godio ac yn gwneud gwaith tebyg bob blwyddyn ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg oherwydd y fflw. Mae'r grwpiau lefel uchel a lwythwyd i WIS wedi'u hadolygu gan is-grŵp Data ac Epi CVB. Mae tîm Gofal Sylfaenol NWIS wedi mapio a thynnu'r codau perthnasol o gofnodion practisau meddygon teulu a a defnyddiwyd y rhain wedyn i lwytho Grŵp 6 i WIS.
3. Mae'r rhestr yn debyg i'r grwpiau risg fflw ond gyda gwahaniaethau pwysig. Yn benodol ar gyfer COVID-19 o'i gymharu â'r fflw:
 - a. Dim ond y rhai 16 oed a throsodd
 - b. Dim ond y rhai sydd ag asthma difrifol sy'n cael eu cynnwys, a ddiffinnir fel pobl sy'n defnyddio corticosteroidau drwy'r geg yn rheolaidd, neu sydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty o'r blaen. Nid yw unigolion ag asthma ysgafn i gymedrol mewn mwy o berygl o ganlyniadau difrifol gyda COVID-19 ac nid yw JCVI yn argymhell eu brechu.
 - c. Dim ond y rhai ag anabledd dysgu sy'n 'ddifrifol a dwys' neu sy'n cael eu codio fel rhai sydd ar y gofrestr LD sydd wedi'u cynnwys, gweler isod
 - d. Nid yw beichiogrwydd ei hun yn ddangosydd ar gyfer brechu rhag COVID-19, gweler isod
4. Mae rhai amodau wedi'u hychwanegu at fanyleb Grŵp 6 ers iddynt gael eu rhoi yn WIUS, ac mae gwaith ar y gweill i gynnwys yr unigolion hyn yn WIS :
 - a. Clefyd Addison
 - b. Diabetes beichiogrwydd ar hyn o bryd
 - c. Asthma: mae'r diffiniad o "ddefnydd parhaus neu ailadroddus o steroidau systemig" wedi cael ei newid i 3 phresgripsiwn corticosteroid drwy'r geg yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf
 - d. Lwpws erythematosws systemig
 - e. Arthritis gwynegol
5. Bydd rhai unigolion yng Ngrŵp 6 yn WIS yn feichiog a byddant yn cael eu galw am eu bod mewn grŵp risg. Cyn eu brechu, dylid trafod manteision a risgiau posibl brechu yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron, a bydd rhai menywod yn dewis peidio â chael eu brechu. Mae trefniadau gweithredu safonol yn cael eu datblygu fel bod menywod beichiog sy'n wynebu risg yn cael eu rheoli'n gyson, ac mae'r Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGD) yn cael eu hadolygu i ganiatáu brechu o dan y PGD os oes gan y fenyw dystiolaeth ei bod wedi cael ei chwmsela gan weithiwr proffesiynol priodol.

6. Efallai nad oes gan rai unigolion cymwys y codau clinigol perthnasol yn eu cofnod meddyg teulu, felly ni fyddent yn ymddangos yng Ngrŵp 6 yn WIS a bydd angen i'r meddyg teulu neu'r ymgynghorydd ysbyty eu nodi, neu byd angen iddynt eu nodi eu hunain. Yn yr un modd, ni fydd y rhai a gafodd ddiagnosis diweddar o gyflyrau sy'n eu rhoi mewn grŵp risg clinigol yn ymddangos ar WIS os cafodd eu cyflwr ei godio ar ôl i ddata gael ei gymryd o systemau meddygon teulu. Gall y rhain gynnwys y meddyginiaethau imiwnoglobol rhagnodedig hynny gan glinigwr ysbyty nad yw wedi'i codio ar gofnodion y meddyg teulu; bydd angen i dîm yr ysbyty gynghori'r unigolion hyn. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r unigolion hyn eisoes wedi'u hychwanegu at Grŵp 4 yng Nghymru gan fod cofnodion rhagnodi mewn ysbytai wedi'u defnyddio i nodi'r unigolion hynny y rhagnodwyd un feddyginiaeth imiwnoataliol iddynt a chawsant eu hychwanegu at y Rhestr Gwarchod Cleifion.
7. Mae'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn rhestr gymwys Grŵp 6 yr un fath ledled y DU, yn seiliedig ar restr codio PRIMIS. Nid yw'n ymarferol ymateb i ymholiadau unigol am amodau penodol. Pan fydd claf wedi'i roi yng Ngrŵp 6 heb ddangosydd clinigol ymddangosiadol, mae'r mwyafrif llethol o'r enghreifftiau yr ymchwiliwyd iddynt hyd yma wedi deillio o faterion codio practisau, megis cyflyrau nad ydynt yn gyfredol. Gwyddom nad yw diffiniad y BMI yn cynnwys pob claf cymwys ac mae'r broblem yn cael ei chywiro. Dylai unrhyw unigolyn y gwelir ei fod wedi'i gynnwys yng Ngrŵp 6 mewn camgymeriad, er enghraifft oherwydd codau ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn gyfredol, gael ei gywiro yng nghofnod y practis a gellir ei gywiro hefyd yn WIS drwy newid y maes "Grŵp blaenoriaeth".
8. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar frechu a derbyn cleifion i'r ysbyty ar gyfer triniaethau penodol.
9. Er mwyn sicrhau bod unigolion a ddisgrifir gan y JCVI fel rhai ag "anabledd dysgu difrifol neu ddwys" yn cael eu cynnwys, ychwanegwyd y rhai sydd â chodau ar gyfer "anabledd dysgu difrifol", "anabledd dysgu dwys" neu "anabledd dysgu sylweddol", a bydd y rhai y codiwyd eu bod ar y cofrestrau anabledd dysgu ehangach mewn practisau meddygon teulu yn cael eu hychwanegu hefyd. Yn lleol, er mwyn sicrhau bod pawb yn y grŵp hwn yn cael ei gynnwys, nodwch y gall dangosyddion anabledd dysgu difrifol gynnwys derbyn gwasanaethau gofal dydd neu fudd-daliadau anabledd sy'n gysylltiedig â'u hanabledd dysgu. Bydd llawer o oedolion iau mewn lleoliadau gofal preswyl hefyd yn perthyn i'r grŵp hwn, ac os yw'r mwyafrif mewn lleoliad gofal yn gymwys, argymhellir brechu'r lleoliad preswyl cyfan. Mae canllawiau pellach ar gael yn gov.wales/covid-19-vaccinations-prioritisation-individuals-learning-disability-or-severe-mental-illness.
10. Mae JCVI yn diffinio gofalwyr sy'n gymwys fel y rhai sy'n gymwys i gael lwfans gofalwr, neu'r rhai sy'n unig ofalwr neu'n brif ofalwr i berson oedrannus neu anabl sydd mewn mwy o berygl o farw o COVID-19 ac sydd felly'n agored i niwed yn glinigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r rhai sy'n cael eu codio ar hyn o bryd fel gofalwr mewn cofnodion meddygon teulu gael eu hychwanegu at Grŵp 6. Mae canllawiau pellach ar nodi gofalwyr ar gael yn <https://llyw.cymru/brechiad-covid-19-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-html>

